# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2011** |
| Amser: | **09:00 – 09:55** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700000_14_07_2011&t=0

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Russell George**<br>**Vaughan Gething**<br>**Llyr Huws Gruffydd**<br>**Julie James**<br>**William Powell**<br>**David Rees**<br>**Antoinette Sandbach** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Gregg Jones (Ymchwilydd)** |

## 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2. Ymchwiliad i Ynni - Papur cwmpasu a chylch gorchwyl drafft

2.1 Pleidleisiodd y Pwyllgor ar y cynnig y byddai ei ymchwiliad cyntaf ar ynni. Pleidleisiodd wyth Aelod o blaid y cynnig, un yn ei erbyn ac ni phleidleisiodd un Aelod.

2.2 Trafododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl drafft a rhai o'r diwygiadau.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor y dylid dosbarthu'r cylch gorchwyl drafft diwygiedig i'r Aelodau mewn e-bost er mwyn iddynt ei gymeradwyo.

## 3. Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd - Ffyrdd o weithio

3.1 Pleidleisiodd y Pwyllgor ar y cynnig i sefydlu dau grŵp gorchwyl a gorffen: un i ystyried y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r llall i ystyried y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Pleidleisiodd pum Aelod o blaid y cynnig, pedwar yn ei erbyn ac ni phleidleisiodd un Aelod.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Aelodau'n hysbysu'r Clerc ynghylch pa un o'r grwpiau gorchwyl a gorffen yr hoffent fod yn aelod ohono.

## 4. Deisebau: P-03-273 Cludo tyrbini gwynt yn y Canolbarth & P-04-324 Dywedwch Na i TAN 8 – Mae ffermydd gwynt a llinellau pwer foltedd uchel difetha ein cymuned

4.1 Trafododd y Pwyllgor y deisebau a chytunodd y dylid eu cynnwys yn ei ymchwiliad i ynni.

4.2 Byddai'r Cadeirydd yn ymateb yn ffurfiol i Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

## 5. Cylch gwaith y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd – y Cyd-destun Ewropeaidd

5.1 Gwnaeth Gregg Jones o'r Gwasanaeth Ymchwil ym Mrwsel gyflwyniad i'r Pwyllgor am ei rôl a sut y gallai gynorthwyo gwaith y Pwyllgor.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.